## ATODLEN 3

## Hysbysiadau

**Hysbysiadau o dan reoliad 18 (datganiad amgylcheddol drafft: gwiriadau cyn ymgynghori)**

**12.** Y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 18(6)(b) yw—

(a) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth benodedig (sef y dyddiad pan ddaw'r cyfnod perthnasol at ddibenion rheoliad 18(8) neu, yn ôl y digwydd, rheoliad 18(9), i ben);

(b) effaith rheoliad 18(10) (atal);

(c) effaith rheoliad 50 (parhad ataliad);

(ch) effaith rheoliad 51 (gwahardd);

(d) effaith rheoliad 18(12) i (24) (gofyniad i ystyried ffurf datganiad amgylcheddol);

(dd) effaith rheoliad 18(25) (nid yw cyfarwyddyd i gyhoeddi yn atal yr hawl i fynnu cael gwybodaeth bellach neu dystiolaeth);

(e) y ddyletswydd a osodir ar y ceisydd, apelydd neu, yn ôl y digwydd, y gweithredwr, gan reoliad 46 (cyhoeddusrwydd);

(f) yr hawl i herio'r hysbysiad a'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud hynny.